



Cyfarfod

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD LLUN, 6ED CHWFROR, 2023

NODER

BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU

https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home

Lleoliad

Hybrid
(Aml- leoliad)

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH
ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 27 Ionawr 2023)

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Aelodaeth (15)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Elin Hywel
Huw Wyn Jones
Edgar Wyn Owen
Huw Rowlands

Delyth Lloyd Griffiths
Gareth Tudor Jones
Olaf Cai Larsen
Gareth A Roberts

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Louise Hughes
Anne Lloyd-Jones
Gruffydd Williams

Elwyn Jones
John Pughe Roberts

Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Coj Parry

TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoddi'r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

1.	Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad.	
2.	Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen	
3.	Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o'r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
4.	Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
5.	Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor	10 munud
6.	Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i'r cais cynllunio	
7.	Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio.	

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Ionawr 2023 fel rhai cywir

5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

5.1 CAIS RHIF C21/1028/18/LL CARTREF NYRSIO PENISARWAUN, PENISARWAUN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 3DB 12 - 29

Newid defnydd o gartref gofal (Dosbarth Defnydd C2 - sefydliadau preswyl) i hostel gwasanaethol ar gyfer defnydd gwyliau (Defnydd Unigryw) ynghyd a llety byw warden cysylltiedig.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Elwyn Jones

[Dolen i'r dogfennau cefndirol](#)

5.2 CAIS RHIF C22/1020/11/LL HEN YSGOL GLANADDA, LLWYBR YR YSGOL, BANGOR, GWYNEDD, LL57 4SG 30 - 50

Adeiladu ysgol gynradd unllawr newydd gyda 150 lle, meithrinfa 20 lle a Chylch Meithrin 30 lle a gwaith allanol cysylltiedig, gan gynnwys trin ffiniau, trefniadau parcio newydd a darpariaethau mynediad gwell ar gyfer adleoli Ysgol Ein Harglwyddes ar hen safle Ysgol Glanadda.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Gareth A Roberts

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

PWYLLGOR CYNLLUNIO 16-01-23

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Edgar Owen (Cadeirydd)
Elwyn Edwards (Is-gadeirydd)

Delyth Lloyd Griffiths, Elwyn Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Huw Rowlands, Gareth Coj Parry a Gruffydd Williams

Swyddogion: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eraill a wahoddwyd: Cynghorydd Rhys Tudur (Aelod Lleol)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes ac Elin Hywel:
Cynghorydd John Pughe (Aelod Lleol)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd yr aelod canlynol ei fod yn aelod lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Rhys Tudur (nad oedd yn Aelod i'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 (C21/1038/41/LL) ar y rhaglen

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28ain o Dachwedd 2022 a Rhagfyr 19eg 2022 fel rhai cywir.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisiâu.

PENDERFYNWYD

5.1 CAIS RHIF CAIS RHIF C22/0874/16/LL Tŷ'n Lôn, Afonwen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6TX

Sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiledau a gwaith cysylltiedig

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais ydoedd ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol, i sefydlu safle carafanau teithiol i 19 uned, ymestyn adeilad presennol i greu bloc toiledau a gwaith cysylltiedig ar dir yn Nhŷ'n Lôn, Afonwen. Byddai'r unedau teithiol wedi eu lleoli o amgylch terfynau'r cae i'r gogledd orllewin o'r eiddo.

Eglurwyd bod Datganiad Cynllunio a datganiad cryno am sut roddwyd ystyriaeth i'r laith Gymraeg wedi eu cyflwyno gyda'r cais gwreiddiol ynghyd ag Asesiad Ecolegol Cychwynnol, Arolwg Botanegol ac Arolwg Moch Daear a Chynllun mesurau lliniaru bywyd gwyllt yn ddiweddarach. Roedd y cynlluniau gwreiddiol yn gofyn am floc toiledau newydd, ond fe gyflwynwyd cynlluniau diwygiedig (12 Rhagfyr 2022) yn dangos bwriad i ymestyn adeilad modurdy presennol ar y safle i greu bloc toiledau/cyfleusterau yn eu lle.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio gan fod safle'r cais yn fwy na 0.5 hectar o faint.

Nodwyd mai Polisi TWR 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI) oedd y polisi perthnasol ar gyfer caniatáu datblygiadau ar gyfer carafanau teithiol. Eglurwyd bod y polisi yn gosod cyfres o feini prawf a chyfeiriwyd at faen prawf 1 sy'n datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol newydd fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad; wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellid cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd i'r dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i'w hansawdd weledol.

Adroddwyd y byddai'r bwriad arfaethedig wedi ei leoli mewn cae gwastad sydd â choed aeddfed ar y terfynau ac felly'n guddiedig o leoliadau cyhoeddus. Ategwyd bod bwriad i atgyfnerthu sgrinio'r safle trwy blannu gwrych newydd o goed cynhenid fel ffin orllewinol newydd i wahanu'r cae carafanau o'r cae ehangach. Nid yw'r safle o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) nac o fewn Ardal Tirwedd Arbennig ac ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd y dirwedd. Mae'r bwriad wedi ei ddylunio i gwrdd â gofynion trwyddedu o safbwynt gofod a chyfleusterau ac felly derbyniwyd fod y datblygiad yn un safonol.

Nodwyd bod ail faen prawf Polisi TWR 5 yn gofyn osgoi gormodedd o leiniau caled. Yn yr achos hwn ni ddangosir unrhyw leiniau caled i'r carafanau – y trac graean sydd yn arwain i fyny'r cae o'r fynedfa yw'r unig lain caled ac ystyriwyd y gall y trac ymdoddi'n rhwydd i'r dirwedd. Gan na ddangosir lleiniau caled, ystyriwyd y byddai'n addas gosod amod bod unrhyw leiniau caled yn cael ei gyfyngu i leiniau'r carafanau yn unig.

Yng nghyd-destun y trydydd maen prawf sy'n gofyn sicrhau mai unedau teithiol yn unig fyddai'n defnyddio'r safle, amlygwyd y gellid rheoli hynny drwy amod cynllunio priodol.

Yng nghyd-destun mwynderau cyffredinol a phreswyl, ar sail pellter a natur guddiedig y cae, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol nac achosi aflonyddwch ar unrhyw drigolion cyfagos. Ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi PCYFF 2 y CDLI sy'n ymwneud ag amddiffyn mwynderau defnyddwyr tir cyfagos.

Yng nghyd-destun trafndiaeth a mynediad, nodwyd na fyddai angen gwneud addasiadau i'r fynedfa er gwasanaethu'r bwriad. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Uned Drafnidiaeth i'r cais.

Nodwyd bod yr Uned Bioamrywiaeth wedi cadarnhau fod yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd (Arolwg Botanegol, ac Arolwg Moch Daear a Chynllun Mesurau Lliniaru Bywyd Gwyllt) wedi eu gwneud i safon dda gan gynghori y dylai'r bwriad ddilyn y mesurau lliniaru a gwelliannau a gynigiwyd.

Wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol ac na fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, mwynderau'r gymdogaeth na diogelwch ffyrdd.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:
- Ei fod yn gwrthwynebu'r cais ac yn cytuno gyda sylwadau'r Cyngor Cymuned oedd yn *'Gwrthwynebu ar sail gor-ddatblygiad a bod llawer o feysydd carafanau ar hyd yr arfordir yn barod'*.
 - Yn gwrthwynebu ar sail gormodedd (meysydd cyffelyb gerllaw) a gor-dwristiaeth
 - Er bod yr adroddiad yn argymhell caniatáu, dim ystyriaeth i feysydd cyfagos sydd yn arwain at ormodedd yn yr ardal. Nid yw'r adroddiad yn pwysu a mesur yr effaith
 - Angen ystyried Polisi TWR 3 o fewn y CDLI sydd yn nodi'r *gallu i brofi na fyddai'r bwriad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau*
 - Cyfeiriwyd at safleoedd cyfagos gan amlinellu nad oeddynt yn safleoedd bach
 - Bod angen ystyried POLISI TAI 14: DEFNYDD PRESWYL O GARAFANAU sydd yn amlygu y gellid dangos na fuasai'r bwriad yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y diwydiant twristiaeth. Angen ystyried y ddadl bod gormodedd o safleoedd mewn ardal fechan yn cael effaith andwyol ar yr hyn sydd yn bodoli yn barod
 - Annog y Pwyllgor i wrthod, ond os ydynt yn ystyried caniatáu, yna annog penderfyniad i ohirio fel bod modd cynnal ymweliad safle a chynnal gwaith ymchwil i'r nifer safleoedd sydd yn yr ardal.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Cynllunio bod Polisi TWR 3 yn berthnasol i safleoedd carafanau sefydlog a sialé a llety gweryslla amgen parhaol tra bod Polisi TWR 5 yn berthnasol i safleoedd carafanau teithiol, gweryslla a llety gweryslla amgen dros dro. Ategwyd bod Polisi TWR 3 yn cyfeirio at ormodedd, ond mewn perthynas â safleoedd sefydlog yn unig; Polisi TWR 5 yn gosod meini prawf ar gyfer elfennau gwledol yn unig.

Defnyddwyd 'Google Earth' i amlygu cynllun awyr o'r ardal i ddangos y gwahanol safleoedd o fewn ardal y cais. Nodwyd, o gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngwynedd, megis Penllyn a Meirionydd, nad oedd gormodedd safleoedd teithiol yn yr ardal yma.

- c) Cynigiwyd caniatáu y cais yn unol ar argymhelliad. Ni chafwyd eilydd
- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais ar sail gormodedd a gor-dwristiaeth. Nodwyd, er y gall twristiaeth roi hwb economaidd i'r ardal leol gall fod yn niweidiol i'r amgylchedd a rhoi pwysau ar y boblogaeth leol - gall hefyd greu effaith negyddol o'r profiad i dwristiaid - hynny yw bod gormod yn ymweld â rhywle ar unwaith.

Ategwyd y byddai'r bwriad yn or-ddatblygiad ac yn cael effaith ar y bobl leol a'r Iaith Gymraeg a bod rhaid ystyried yr effaith gronol yn yr ardal.

- d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pheryg amlwg o lifogydd yn yr ardal a'r pryder y gall y safle gael ei ynysu, sydd yn groes i reolau TAN 15, nododd y Rheolwr Cynllunio bod

sawl map gwahanol yn cael eu defnyddio i amlygu parthau llifogydd ond ar gyfer materion cynllunio fe ddefnyddir mapiau TAN15. Ystyriwyd nad oedd yr ardal dan sylw o fewn parth llifogydd ac felly nid yn peri risg. Ategwyd bod y swyddogion wedi ymgynghori gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid oeddynt wedi amlygu pryder am lifogydd.

Mewn ymateb i awgrym yr Aelod Lleol i gynnal ymweliad safle ac i'w bryder ef a'r Cyngor Cymuned am ormodedd ac effeithiau gweledol y safle, awgrymodd yn gryf i'r Pwyllgor ystyried ymweliad safle fel bod modd gweld y safle yn ei gyd-destun a'i berthnasedd i safleoedd gerllaw.

dd) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynnal ymweliad safle.

PENDERFYNWYD: Gohirio er mwyn cynnal ymweliad safle

5.2 CAIS C21/0493/09/AC PV Parc Solar yn Morfa Camp Sandilands, Tywyn, LL36 9BH

Diwygio a dileu amodau ar ganiatâd cynllunio C15/0662/09/LL

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais ydoedd i ddiwygio a dileu amodau ar fferm solar yn Nhywyn. Nodwyd bod y caniatâd wedi ei weithredu a'r fferm yn ei lle, ond bod bwriad diwygio amodau i adlewyrchu ceisiadau cynllunio mwy diweddar.

Eglurwyd bod y bwriad yn ymwneud yn bennaf gyda diwygio strategaeth lliniaru ehedydd a gytunwyd o dan amod 14 o gais C15/0662/09/LL. Nodwyd bod yr hyn a gytunwyd fel rhan o'r amod yn clustnodi cae i'r gogledd o'r safle solar ar gyfer yr ehedydd, ond fel rhan o'r cais dan sylw mae'r datblygwr am wella'r amodau o fewn y safle er budd yr ehedydd yn hytrach na defnyddio'r cae nodedig.

Cyflwynwyd y cais i bwyllgor oherwydd bod y safle dros 0.5 hectar.

Adroddwyd, gan fod y cais yn ymwneud a diddymu amodau a osodwyd am resymau cynllunio dilys bod rhaid edrych os yw'r amodau dan sylw'n berthnasol mwyach dan y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas ag amodau cynllunio sydd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. Fe restrai'r cylchlythyr chwe phrawf ar gyfer dilysrwydd amodau cynllunio a bod hi'n angenrheidiol ystyried os yw'r amodau yn cyd-fynd â'r profion isod:

- Eu bod yn hanfodol.
- Eu bod yn berthnasol i gynllunio.
- Eu bod yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu.
- Y gellir eu gorfodi.
- Eu bod yn fanwl.
- Eu bod yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Amlygwyd nad oedd rheswm dros addasu rhai o'r amodau gwreiddiol ond bod gofyn i'r datblygwr barhau i gydymffurfio a hwy. Gwnaed cais i ddileu amod 13: *Cyflwyno a chytuno manylion system goleuo'r safle gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol*. Fel rhan o gais C15/1368/09/AC, nodwyd nad oedd bwriad gosod unrhyw oleuadau fel rhan o'r datblygiad a gyda'r gwaith o ddatblygu'r fferm solar wedi ei gwblhau bellach, amlygwyd nad oedd goleuadau wedi eu gosod ar y safle. Fodd bynnag, petai angen gosod goleuadau ar y safle yn y dyfodol yna nid yw pob math o olau angen caniatâd cynllunio. Ystyriwyd y gall gosod goleuadau gael effaith posibl ar

fwynderau, gweledol a thrigolion lleol, ynghyd a bioamrywiaeth ac felly ystyriwyd y byddai'n briodol diwygio'r amod yn hytrach na'i dileu. Awgrymwyd gosod amod fyddai yn nodi os bwriedir gosod system oleuo ar safle'r fferm solar bydd rhaid cyflwyno a chytuno'r manylion hynny gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Byddai hyn yn cadw rheolaeth dros unrhyw oleuadau posibl allai gael eu rhoi ar y safle ac ystyrir y byddai amod o'r fath yn rhesymol.

Prif ystyriaeth y cais oedd amod 14 *Cyn cychwyn gwaith angen cyflwyno a chytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynllun tirlunio a phlannu*. Eglurwyd, fel rhan o gais C15/1368/09/AC, cyflwynwyd a chytunwyd ar Gynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg ynghyd a chynllun tirwedd oedd yn cynnwys bwriad i glustnodi cae i'r gogledd o'r fferm solar fel dŵl gwair ar gyfer ehedydd, i blannu eithin a helygen ac i reoli'r tir o fewn y fferm solar ar gyfer pori gan ddefaid. Bwriad y cais presennol yn bennaf yw diwygio'r amod yma a chyflwyno Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg a chynllun tirwedd sydd yn hepgor y cae gogleddol o fod yn ddŵl ar gyfer ehedydd. Nodwyd, fel rhan o'r cais presennol cyflwynwyd Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg, cynllun tirlunio a hefyd Adroddiad Monitro Ehedydd.

Tynnwyd sylw bod yr Adroddiad Monitro Ehedydd yn nodi fod dwysedd uchel o ehedydd wedi ei ddarganfod yn ystod yr arolygon ac nad yw'r fferm solar wedi dadleoli'r ehedydd fel yr ystyriwyd yn wreiddiol a bod y niferoedd yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ganlyniad, argymhellwyd fod safle'r fferm solar ei hun yn cael ei rheoli yn benodol ar gyfer cefnogi ehedydd sy'n magu i'r dyfodol yn hytrach na darparu'r cae gogleddol i'r pwrpas yma ac felly yn cynnig gwella amodau o fewn y fferm solar i hybu magu gan ehedydd o fewn y fferm solar ei hun.

Cyfeiriwyd at sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth oedd yn gwrthwynebu'r bwriad ac am i'r cae gogleddol barhau i fod yn fesur lliniaru ar gyfer ehedydd. Fodd bynnag, yn bresennol nid oes unrhyw gynllun wedi ei gytuno o ran diogelu'r glaswelltir o fewn y fferm solar er budd ehedydd ac ystyriwyd felly y byddai'n rhesymol rhoi mesurau mewn lle ar gyfer rheoli'r glaswelltir o fewn ardal y fferm solar yn fesur lliniaru digonol o ystyried na chafodd adeiladu'r fferm solar yr effaith negyddol ar ehedydd fel yr ystyriwyd oedd yn bosibl pan oedd y cais gwreiddiol am sefydlu'r fferm solar dan ystyriaeth. Awgrymwyd felly rhoi amod i gydymffurfio gyda'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg (v5), yr Adroddiad Monitro Ehedydd a'r Cynllun Tirlunio trwy gydol oes y datblygiad na fyddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar gynefin yr ehedydd a bod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi AMG 5 CDLI.

Nodwyd y gellid diwygio amodau 2, 4, 9, 13, 14, 16 ac 17 a dileu amodau 1, 3, 5, 6, 7, 8, 10, 11, 12, 15 a osodwyd ar ganiatâd C15/0662/09/LL.

b) Nododd y Cadeirydd bod yr Aelod Lleol, wedi ymddiheuro am na all fod yn bresennol, ond yn dymuno nodi dim gwrthwynebiad i'r cais.

- c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Bod yr adroddiad yn un manwl
 - Bod y cais yn cynnwys gwelliant dros reolaeth safle'r ehedydd
 - Bod safle nythu priodol wedi ei gynnwys
 - Bod tystiolaeth o nythu a magwraeth o fewn y safle solar
 - Bod bwriad rheoli amseroedd pori a thorri fel bod modd gwarchod y safle mewn modd derbyniol
 - Bod y safle yn cynnig gwell lleoliad a chyfleoedd i adar
 - Bod y fferm solar yn cynnig cynefin amgen i'r adar.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais yn unol ar argymhelliad

- d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod y fferm solar wedi creu ardal i'r ehedydd
 - Bod y fferm solar yn cynnig budd economaidd
- dd) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amod 5 sy'n cyfeirio at 'gydol oes y datblygiad' nododd y Rheolwr Cynllunio bod hyn yn ymarfer cyson o osod caniatâd dros dro i ffermydd solar fel bod modd rheoli ac ail asesu'r safle i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r swyddogion am y gwaith a'r adroddiad manwl.

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais yn unol â'r amodau isod

- 1. Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun(iau) rhif 1137/28, 1137/30-03, 1137/24, 1137/30-1, 1137/02B, 1137/05, 1137/07 V2, 1137/23/1137/25-2, 1137/29 a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad cynllunio hwn.**
- 2. Dylid gorffen defnyddio'r tir at ddibenion cynhyrchu trydan fel y caniateir yma 35 mlynedd neu'n gynharach o ddyddiad cynhyrchu egni y paneli solar, neu o fewn 6 mis i orffen defnyddio unrhyw baneli solar at ddibenion cynhyrchu trydan (oni bai iddynt gael eu hamnewid o fewn y cyfnod hwnnw) pa un bynnag yw'r cynharaf, ac fe ddylid gwneud hynny yn unol â chynllun gwaith a fydd eisoes wedi ei gyflwyno a'i gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd hwnnw'n cynnwys rhaglen weithredu. Cwblheir y cynllun gwaith yn unol â'r manylion a gytunir a bydd y rhain yn cynnwys-**
 - a) Datganiad dull ar gyfer dad-gomisiynu a datgymalu'r holl gyfarpar ar y safle;**
 - b) Manylion unrhyw eitemau sydd am eu gadael ar y safle;**
 - c) Datganiad dull ar gyfer adfer y tir i amaethyddiaeth;**
 - d) Amserlenni ar gyfer digomisiynu, gwaredu ac adfer y tir;**
 - e) Datganiad dull ar gyfer gwaredu / ailgylchu priodol cyfarpar / strwythurau segur;**
 - f) Darpariaeth ar gyfer adolygu'r cynllun fel bo angen.**
- 3. Rhaid gweithredu'r Asesiad Risg Bioddiogelwch dyddiedig 9 Rhagfyr 2015 trwy gydol oes y datblygiad, oni bai y cytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
- 4. Os bwriedir gosod system oleuo ar y safle ar unrhyw adeg bydd gofyn cyflwyno a chytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol fanylion y system oleuo hynny gan dangos math, union leoliad, lefel goleuedd a'r modd o ddiogelu rhag llygredd neu orlif golau. Rhaid bydd gosod y system oleuo yn unol gyda'r manylion a gytunwyd.**

5. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu'n llwyr unol gyda'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecolegol (v5) dyddiedig 10 Mawrth 2021, Adroddiad Monitro Ehedydd cyf S_MS_F_V4 dyddiedig 9 Mawrth 2021 a'r Cynllun Tirlunio rhif 1137/29 drwy gydol oes y datblygiad, oni bai y cytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
6. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad gweithredol gymryd lle yn ystod unrhyw waith yn gysylltiedig gyda'r caniatâd yma o fewn 3 medr naill ochr i linell ganol y pibelli cyflenwad sy'n croesi'r safle.
7. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu mewn cydymffurfiaeth llwyr gyda'r Datganiad Dull Cynllun Adeiladu ac Asesiad Risg gan Corylus dyddiedig Rhagfyr 2015 er diogelu cyflwr strwythurol y ddwy bibell cyflenwad sy'n croesi'r safle. Ni chaniateir cario allan unrhyw ddatblygiad pellach yn gysylltiedig gyda'r caniatâd yma hyd nes y bydd y mesurau diogelu wedi cael eu gweithredu a'u cwblhau

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 13:45

CADEIRYDD

Eitem 5.1

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Rhif: 1

Cais Rhif: C21/1028/18/LL

**Dyddiad
Cofrestru: 20/10/2021**

Math y Cais: Llawn

Cymuned: Llanddeiniolen

Ward: Penisarwaun

Bwriad: Newid defnydd o gartref gofal (Dosbarth Defnydd C2 - sefydliadau preswyl) i hostel gwasanaethol ar gyfer defnydd gwyliau (Defnydd Unigryw) ynghyd a llety byw warden cysylltiedig.

Lleoliad: Cartref Nyrsio Penisarwaun, Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd, LL55 3DB

**Crynodeb o'r
Argymhelliad: GWRTHOD**

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer newid defnydd cyn-gartref nyrsio'r henoed (Defnydd Dosbarth C2) i ddefnydd hostel gwyliau gwasanaethol (Defnydd Dosbarth C1 - gwestai) ynghyd a darparu llety byw warden cyfannol ar safle sydd ar gyrion dwyreiniol anheddle Penisarwaun ac mae'r cartref wedi bod yn segur erbyn hyn ers 2018.
- 1.2 Mae'n adeilad un llawr o ran ei uchder ac wedi ei ffurfio a ddau brif adain wedi eu cysylltu yn y canol gan strwythur to gwastad. Mae'r adeilad presennol yn cynnwys 30 ystafell wely; storfeydd; ceginau; ystafelloedd eistedd; ystafell offer gwresogi; ystafelloedd ymolchi ynghyd ag ystafelloedd gweinyddol/staff.
- 1.3 Y bwriad yw defnyddio'r ystafelloedd gwely fel llety gwyliau math hostel gwasanaethol a fydd hefyd yn cynnwys darparu uned breswyl o fewn yr adeilad ar gyfer rheolwr/warden; storfeydd ac ystafelloedd sychu; lobi fach newydd ar gyfer y brif fynediad i'r adeilad (dyma'r unig ychwanegiad y bwriedir ei gario allan i'r adeilad presennol); ystafell gemau; ystafelloedd ymolchi/cawodydd ynghyd a chegin ac ystafell fwyta. Nodir yma nid oes gwybodaeth bellach wedi ei gyflwyno gyda'r cais sy'n cadarnhau faint o wlâu fydd ymhob ystafell cysgu.
- 1.4 Yn allanol, bwriedir defnyddio'r cyfleusterau parcio presennol sydd o fewn cwrtill y cyn-gartref ynghyd a'r ddwy fynedfa sy'n gwasanaethu'r safle oddi ar y ffordd sirol dosbarth III gyfagos. Bydd y bwriad yn cyflogi person llawn amser (rheolwr/warden) ynghyd a 3 i 4 staff rhan amser.
- 1.5 Saif y safle nepell y tu allan i'r ffin datblygu yn y CDLL ond oddi fewn i barth gwarchod 500m i heneb ac oddi fewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig gan CADW. Lleolir Safle Bywyd Gwyllt *Deiniol House* gyfochrog a'r safle ynghyd ag anheddau preswyl ar wasgar o amgylch safle'r cais.
- 1.6 Cyflwynwyd Datganiad Cynllunio i gefnogi'r cais er na chyflwynwyd ymgynghoriad cyn cyflwyno cais ar gyfer y bwriad hwn.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017: -**
 - PS 1 – yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
 - PS 5 – datblygu cynaliadwy.
 - PS 6 – lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

PS14 – yr economi ymwelwyr.

PS 19 – gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol.

PS 20 – diogelu a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol.

TRA 2 – safonau parcio.

TRA 4 – rheoli ardrawiadau cludiant.

PCYFF 1 – ffiniau datblygu.

PCYFF 2 – meini prawf datblygu.

PCYFF 3 – dylunio a siapio lle.

TWR 2 – llety gwyliau.

AMG 5 – cadwraeth bioamrywiaeth leol.

AT 1 – ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig.

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (2021).

CCA: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.

2.4 **Polisiâu Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

NCT 11: Sŵn

NCT 12: Dylunio.

NCT 13: Twristiaeth.

NCT 18: Trafnidiaeth.

NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg.

NCT 23: Datblygu Economaidd.

NCT 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- 3.1 Cais C09A/0468/18/LL - newid amod 9 o ganiatâd cynllunio rhif C08A/0007/18/LL er mwyn galluogi defnyddio'r cartref i bobl dros 40 oed yn hytrach na chyfyngu'r gofal i'r henoed yn unig wedi ei ganiatáu yn 2010.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

3.2 Cais C08A/0007/18/LL - ymestyn cartref presennol drwy greu estyniad 2/3 llawr, dymchwel y gegin bresennol, creu rhodfa a manau parcio ychwanegol ynghyd a thirweddu a gwaith draenio wedi ei ganiatáu yn 2009.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref:

Gwrthwynebu ar sail: -

- Y cais am 30 o ystafelloedd yn ormod i'r ardal.
- Mae'r safle ar lon gul troellog yn mynd i greu problemau a pheryg ar y ffordd.
- Bosib bydd dipyn o sŵn ar gynnydd yn yr ardal ac yn cael effaith ar fwynderau preswylwyr cyfagos.

Uned Drafnidiaeth:

- Y datblygiad wedi ei leoli ar ffordd gul yng nghanol cefn gwlad - mae newid defnydd o C2 i C1 am gael effaith ar yr angen am barcio ac er bod darpariaeth ar gyfer 21 o fannau parcio nid yw'n cydymffurfio gyda gofyn parcio Llywodraeth Cymru. Gallai hyn creu problemau parcio ar hyd y ffordd sirol.
- Fel rhan o'r cais dylid rhoi sylw bod angen i'r ymgeisydd sicrhau bod tyfiant ar y wal derfyn gyda'r ffordd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau gwelededd digonol wrth ymuno ar y ffordd sirol.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Dim sylwadau i'w gwneud ar y datblygiad arfaethedig.

Dŵr Cymru:

Amod parthed gwaredu dŵr aflan o'r safle ynghyd a chynnig cyngor safonol.

Uned Gwarchod y Cyhoedd:

Dim ymateb.

CADW:

Dim ymateb.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu eisoes wedi dod i ben i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Cynnydd mewn trafnidiaeth yn defnyddio'r ffordd sirol is-safonol gyfochrog.
- Diffyg darpariaeth parcio.
- Graddfa a dwysedd y defnydd arfaethedig ddim yn briodol nac yn addas i'r safle – gor-ddatblygiad o'r safle.
- Ad-drawiad sylweddol ar fwynderau trigolion lleol ar sail aflonyddwch sŵn.
- Gormodedd o ddefnyddiau llety gwyliau cyffelyb yn yr ardal.
- Bwriad yn groes i bolisiau'r CDLL.
- Gwybodaeth annigonol wedi ei gyflwyno parthed niferoedd o wlaŵ a gynigir fel rhan o'r datblygiad. Pe byddai 2 gwely-bync i bob ystafell byddai hyn, yn ei dro, yn golygu llety ar gyfer lleiafswm o 60 ac uchafswm o 120 (neu fwy) o ymhelwyr/preswylwyr.
- Nid yw defnydd y safle fel llety gwyliau yn gydnaws a'i ddefnydd gwreiddiol fel cartref i'r henoed.
- Problem llifogydd ar y ffordd sy'n llifo o gaeau cyfagos.
- Dim cynllun busnes wedi ei gyflwyno gyda'r cais.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae nifer o bolisiau lleol a chenedlaethol yn ymwneud a'r egwyddor o ddarparu llety gwyliau gwasanaethol sy'n cynnwys Polisi PCYFF 1; Polisi PS 14; Polisi TWR 2 o'r CDLL ynghyd a'r canllaw Cynllunio atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a'r nodiadau Cyngor technegol, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy ynghyd a Datblygu Economaidd.
- 5.2 Mae Polisi PCYFF 1 yn datgan y tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisiau penodol y cynllun neu bolisiau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Mae Polisi PS 14 o'r CDLL yn cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth leol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy, er enghraifft, cefnogi darpariaeth newydd o lety gwasanaethol o ansawdd uchel (h.y. o ran defnydd tir) yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol a lleol ac yn y pentrefi.
- 5.3 Mae Polisi TWR 2 o'r CDLL yn hwyluso cynigion ar gyfer llety gwyliau gwasanaethol cyn belled fod y bwriad yn cydymffurfio gyda nifer o feini prawf. Y meini prawf perthnasol yn yr achos arbennig hwn yw: -
- (i) Bod graddfa'r datblygiad arfaethedig yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu anheddiad dan sylw a'i fod yn gallu cydweddu a ffitio'n gyffyrddus i'w amgylchfyd - Mae'r bwriad, ymysg defnyddiau cysylltiedig eraill, yn golygu darparu 30 ystafell wely/cysgu o fewn yr adeilad presennol er nad oes gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd sy'n cyfeirio at faint o ddarpariaeth gwlaŵ sydd yn cael eu cynnig o fewn yr ystafelloedd hyn. Er nad oes bwriad i ymestyn yr adeiladwaith presennol (ar wahân i osod to gwastad o raddfa fechan uwchben y brif fynedfa bresennol), ystyrir gallai'r bwriad, o'i ganiatáu, golygu byddai darpariaeth ar gyfer 60 hyd at 120 o ddeiliaid /preswylwyr yn bosibl o fewn y cyfleuster ar yr un pryd ac, o bosib, yn barhaol drwy'r flwyddyn. Gan ystyried natur a delwedd y defnydd blaenorol fel cartref gofal i'r henoed (gyda uchafswm o 30 o breswylwyr parhaol), ystyrir gall

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

y defnydd arfaethedig olygu cynnydd sylweddol yn natur a dwysedd defnydd y safle ar ffurf llety gwyliau ac fe all hyn, yn ei dro, amharu'n sylweddol ar gymeriad, delwedd a natur yr ardal leol ynghyd a thanseilio mwynderau preswyl trigolion cyfagos ar sail aflonyddwch sŵn. Ni ystyrir, felly, byddai'r defnydd arfaethedig yn cydweddu nac yn ffitio'n gyffyrddus i'w amgylchfyd ac i'r perwyl hyn ni ystyrir bod y defnydd arfaethedig yn briodol ar gyfer y safle/eiddo arbennig hwn. Mae'r pryder hwn eisoes wedi cael ei leisio gan drigolion cyfagos fel sydd wedi ei nodi uchod.

- (ii) Nad yw'r datblygiad yn cael ei leoli mewn ardal sy'n ardal breswyl yn bennaf, neu'n peri niwed sylweddol i gymeriad preswyl yr ardal - er bod y safle wedi ei leoli y tu allan i'r ffin datblygu, y brîf ddefnyddiau amlwg cyfagos yw defnyddiau ar ffurf anheddau preswyl. Lleolir nifer o anheddau preswyl o fewn *tafliad carreg* o'r safle gan gynnwys yr anheddau a adnabyddir fel Talsarnau, Ysgubor Cae Corniog, Tŷ Gwyn, Pantafon, Treflys a Llys yr Onnen. Ystyrir byddai'r bwriad, oherwydd ei raddfa (yn nhermau'r nifer o bobol all aros yno ar yr un adeg) a'r mynd a dod cyson o'r safle all deillio o'r defnydd, byddai caniatáu y bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau trigolion lleol. Byddai hefyd yn tanseilio cymeriad hamddenol a thawel preswyl yr ardal hon ar sail creu aflonyddwch sŵn. Mae'r pryder hwn yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd gan wrthwynebwyr i'r cais.
- (iii) Nad yw'r datblygiad yn arwain at ormodedd o lety o'r fath yn yr ardal - nodir uchod mai un o'r rhesymau a gyflwynwyd gan drigolion lleol i wrthwynebu'r cais hwn yw bod gormodedd o lety gwyliau cyffelyb eisoes wedi eu sefydlu o fewn yr ardal. Gan mai llety gwyliau gwasanaethol sy'n cael ei gynnig yma, ni fydd hi'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun busnes. Fodd bynnag, gall eithriadau godi, ble ystyrir fod yna lefel uchel (mwy na 15%) o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal cyngor cymuned/tref/dinas. Yn unol â ffigyrau Treth Cyngor (Gorffennaf 2021), y ffigwr cyfunol o ailgartrefu a llety gwyliau ardal cyngor cymuned Llanddeiniolen yw 3.42%, a chan hynny, ystyrir ni fyddai caniatáu'r bwriad yn golygu gormodedd o'r fath ddefnyddiau o fewn y cyngor cymuned er gwaethaf pryderon y gwrthwynebwyr parthed yr elfen yma o'r bwriad.
- 5.4 Mae'r canllaw Cynllunio atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid yn adlewyrchu gofynion polisi TWR 2 ynghyd a chyngor cynllunio cenedlaethol. Mae'n cynghori byddai angen rhoi ystyriaeth lawn i nifer o amrywiol ffactorau wrth ddelio gyda datblygiadau twristiaeth o'r math a gynigir yma gan gynnwys datblygiadau o ansawdd uchel; ystyriaethau tirwedd/amgylcheddol; math o unedau; graddfa'r datblygiad; trosi adeiladau presennol ynghyd a gorddarpariaeth. Yn yr achos arbennig hwn, ni ystyrir byddai'r bwriad yn creu datblygiad o ansawdd uchel gan nad yw'n dderbyniol ar sail graddfa/dwysedd a'i fod wedi ei leoli yn bennaf mewn ardal breswyl.
- 5.5 Mae NCT 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn datgan un o'r ychydig sefyllfaoedd lle gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl newydd yng nghefn gwlad yw pan fo angen llety i alluogi gweithiwr menter wledig (sy'n gallu cynnwys defnydd twristiaeth) i fyw yn eu man gwaith neu'n agos ato. Yn y cyswllt hwn, mae'r bwriad yn golygu darparu llety i reolwr/warden y cyfleuster a rhan annatod o ddarpariaeth llety gwyliau gwasanaethol o'r math yma yw'r angen i'r rheolwr fod ar gael trwy gydol y dydd gan olygu i'r rheolwr byw naill ai ar neu yng nghyffiniau'r safle. Serch hynny, mae'n hanfodol bod yno wahaniad clir rhwng llety'r rheolwr a gweddill yr hostel ac na fydd cyfleusterau fel cegin, lolfa a thoiledau yn cael eu rhannu. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth lawn wedi ei gyflwyno gyda'r cais sydd yn dangos cynllun llawr arfaethedig manwl er mwyn wahaniaethu rhwng llety'r rheolwr a gweddill y llety gwyliau/hostel er gwaethaf ymdrechion yr ACLL i ofyn am y fath wybodaeth gan yr ymgeisydd drwy ei asiant.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.6 O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth hwn, nid yw'n eglur os oes gwahaniaeth clir yn bodoli rhwng defnydd arwynebedd llawr ar gyfer llety'r rheolwr a gweddill defnydd llawr yr adeilad ar gyfer preswylwyr y llety gwyliau/hostel ei hun h.y. bod posibilrwydd byddai cyfleusterau yn cael eu rhannau neu bydd yr uned ddim yn iswasanaethol i'r prif defnydd fel llety gwyliau. Mae Arolygwr Cynllunio wedi datgan mewn canlyniad apêl ar gyfer cais cyffelyb fod angen cael gwahaniaeth clir rhwng llety rheolwr a llety gwyliau o fewn yr un adeilad gan fyddai'n anodd iawn i'r ACLL i reoli lledaeniad y defnydd preswyl o fewn y llety gwyliau. Ni fyddai defnyddio amod cynllunio yn caniatáu cyfyngu defnydd y rhan preswyl o fewn y llety gwyliau. Er byddai'n bosib i ganiatáu'r fath ddefnydd preswyl fel elfen sy'n gysylltiedig ag atodol i'r brîf ddefnydd fel llety gwyliau, yn yr achos arbennig hwn ac oherwydd diffyg gwybodaeth, ni all yr ACLL gefnogi'r rhan yma o'r bwriad gan nad yw'n eglur bod yr ymgeisydd yn gallu profi'r angen am lety o'r fath ar gyfer rheolwr o fewn yr adeilad presennol a fyddai'n gwasanaethu'r llety gwyliau.
- 5.7 Mae NCT 23: Datblygu Economaidd yn berthnasol i egwyddor y bwriad hefyd gan ddatgan yr angen i'r adeilad dan sylw fod yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig ar sail graddfa; ffurf a maint; bod amodau yn goresgyn unrhyw bryderon gan yr ACLL ac na fyddai angen gwaith adeiladau sylweddol i'r adeilad(au) presennol. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, ni ystyrir bod y bwriad, fel y'i cyflwynwyd, yn dderbyniol ar sail ei raddfa na'i leoliad ac na fyddai cynnwys amodau yn goresgyn pryderon yr ACLL parthed anghydymffurfiaeth y bwriad gyda pholisiau a chynghor cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol.
- 5.8 Gan ystyried yr asesiad yma yn ei gyfanrwydd ac er cydnabyddir bod yr adeilad presennol o wneuthuriad cadarn a strwythurol da, ni chredir byddai'r bwriad, fel y'i cyflwynwyd, yn cydymffurfio a'r holl feini prawf a chanllawiau a nodir uchod ac na fyddai cynnwys amodau yn goresgyn pryderon yr ACLL parthed effeithiau negyddol y bwriad hwn yn enwedig ar sail diffyg gwybodaeth ynghyd a'i ad-drawiad ar fwynderau preswyl a chymeriad a delwedd yr ardal leol. I'r perwyl hyn, felly, ni ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor ac nid yw, felly, yn cydymffurfio gyda holl ofynion Polisi PCYFF 1, PS 14, TWR 2 o'r CDLL ynghyd a'r cynghor a gynhwysir o fewn y ddogfen CCA: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid, NCT 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a NCT 23: Datblygiad Economaidd.

Mwynderau gweledol

- 5.9 Mae'r bwriad yn golygu gosod to gwastad uwchben y brif fynedfa i'r adeilad ac mai dyma fydd yr unig newid i edrychiad allanol yr adeiladwaith presennol. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith newid defnydd yn cael ei gario allan yn fewnol a chan ystyried graddfa a dyluniad y newid i edrychiad allanol blaen yr adeilad, ni chredir byddai'n cael unrhyw effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal nac ychwaith ar osodiad heneb gyfagos nag ar ddynodiant yr ardal fel Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig gan CADW. Ystyrir, felly, i'r bwriad fod yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF 3, PS 19, PS 20 ac AT 1 o'r CDLL.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.10 Mae Polisi PCYFF 2 o'r CDLL yn datgan gwrthodir cynigion os fyddent yn cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol oherwydd gweithgareddau, aflonyddwch, sŵn, llygredd golau neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch. Mae Polisi TWR 2 ynghyd a'r CCA: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid yn ategu amcanion y polisi hwn drwy ddatgan dylid unrhyw ddatblygiad ar gyfer llety gwyliau warchod buddion preswyl ynghyd a bod yn ddefnydd a fyddai'n cydweddu a defnyddiau eiddo cyffiniol (eiddo preswyl yn yr achos hwn) o ran sŵn; aflonyddwch traffig a diffyg preifatrwydd ar gyfer unrhyw eiddo/cyffiniol/gerllaw.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.11 Fel y cyfeiriwyd ato uchod, lleolir anheddau preswyl sefydledig nepell o safle'r cais gan gynnwys Talsarnau (2m - 5m i'r dwyrain); Tŷ Gwyn (40m i'r dwyrain); Llys yr Onnen (30m i'r gogledd); Treflys (46m i'r gogledd-orllewin); Pant Afon (83m i'r gorllewin) ac Ysgubor Cae Corniog (78m i'r de). Ceir nifer helaeth o anheddau preswyl hefyd ymhellach draw o'r safle i'r gorllewin ac i'r dwyrain. Mae gohebiaeth wedi ei dderbyn gan drigolion lleol ynglŷn ag ad-drawiad y bwriad ar fwynderau preswyl ar sail aflonyddwch sŵn.
- 5.12 Nodir bod cymeriad presennol y safle a'i ddalgylch a naws distaw/ llonydd a hamddenol iddo a bod y defnydd blaenorol fel cartref i'r henoed ynghyd a'r gweithgareddau o ddydd i ddydd cysylltiedig yn rhai a fyddai'n cael eu hystyried yn addas ac yn briodol i naws rhannol breswyl a rhannol wledig yr ardal h.y. nad oedd defnydd y safle/eiddo fel cartref yn tarddu'n sylweddol ar fwynderau preswyl cyfagos. Mae'r Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd gyda'r cais yn nodi na fyddai gweithgareddau a fyddai'n tarddu o'r llety gwyliau yn sylweddol gwahanol i'r gweithgareddau a fyddai wedi tarddu o'r cartref blaenorol a byddai goruchwyliaeth 24 awr o'r cyfleuster yn golygu lleihad mewn unrhyw aflonyddwch a allai tarddu o'r defnydd llety gwyliau arfaethedig.
- 5.13 Mae natur llety gwyliau math hostel yn gallu creu ad-drawiad sylweddol ar draul mwynderau preswyl drwy greu aflonyddwch sŵn naill a'i ar ffurf symudiadau cerbydau/cyffredinol neu ar sail ymgynnull/cymdeithasu'n allanol yn ystod y diwrnod a/neu ar nosweithiau tywydd braf. Yn yr achos arbennig hwn, ac er bod y Datganiad Cynllunio yn nodi byddai goruwchwiliaeth 24 awr o'r cyfleuster, mae'r ACLL yn rhagweld byddai defnyddio'r adeilad ar gyfer llety gwyliau math hostel o ddwysedd uchel (posibilrwydd o gael rhwng 60 a 120 o breswylwyr ar y tro) yn anrnod o gael effaith sylweddol ar fwynderau preswyl cyfagos ac ar gymeriad tawel a hamddenol yr ardal leol. Ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth na thystiolaeth gan yr ymgeisydd a fyddai'n argyhoeddi'r ACLL na fyddai'r bwriad yn cael effaith negyddol sylweddol ar fwynderau trigolion a phreswylwyr lleol ar sail creu aflonyddwch swn.
- 5.14 Er yn nodi sylwadau'r ymgeisydd parthed effaith lleiafswm y defnydd arfaethedig ar fwynderau preswyl, nid oes mecanwaith yn ei le o fewn gofynion Cylchlythyr 016/2014 (Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu) a fyddai'n caniatáu'r ACLL i reoli ac i gyfyngu preswylwyr/deiliaid y llety gwyliau cymdeithasu'n fewnol yn unig gan eu gwahardd o gymdeithasu'n allanol o amgylch yr adeilad. Byddai defnydd o'r fath amod yn afresymol ac yn anorfodadwy (*unenforceable*). Er byddai rheolwr/warden ynghyd a staff eraill yn bresennol ar y safle, credir na fyddai hyn yn ei hun yn fodd o sicrhau'n ddiamheuol na fyddai'r preswylwyr yn ymgynnull a chymdeithasu'n allanol ac, o ganlyniad i hyn, rhagwelir byddai defnydd mor ddwys o'r safle yn anrnod o gael effaith andwyol sylweddol ar adegau helaeth drwy'r flwyddyn ar draul mwynderau preswyl trigolion cyfagos. I'r perwyl hyn, felly, ystyrir bod y bwriad yn groes i ofynion Polisi PCYFF 2 a TWR 2 o'r CDLL ynghyd a'r cyngor a gynhwysir o fewn y ddogfen CCA: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid.

Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.15 Gwasanaethir y safle ynghyd a'r pentref gan ffordd sirol dosbarth III gyda chyffordd a'r briffordd A.4244 oddeutu 520m i'r dwyrain gyda manau pasio mewn ambell le. Mae'r safle a dwy adwy iddo ynghyd a llecynnau parcio oddi fewn y safle ei hun. Mewn ymateb i hysbysebu'r cais derbyniwyd gwrthwynebiadau gan drigolion lleol parthed anaddasrwydd y ffordd i ymdopi a thrafnidiaeth ychwanegol a byddai'n cael eu creu gan y llety gwyliau arfaethedig ac mae'r pryder hwn wedi ei nodi uchod.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.16. Mewn ymateb i'r broses ymgynghori statudol, nid oes gan yr Uned Drafnidiaeth bryderon ynglŷn ag addasrwydd y ffordd sirol i ymdopi a thrafnidiaeth a fyddai'n tarddu o'r llety gwyliau/hostel ond mae ganddynt bryder ynglŷn â diffyg llecynnau parcio oddi fewn y safle a fyddai, o bosib, yn gorfodi cerbydau i barcio ar gerbydlon y ffordd sirol ar draul diogelwch ffyrdd. Mae canllawiau parcio Llywodraeth Cymru (CSS Cymru, 2014) yn argymhell byddai angen un llecyn parcio ar gyfer cerbyd masnachol; un llecyn parcio ar gyfer pob llofft ac un llecyn parcio ar gyfer pob 3 staff/person o'r tu allan.
- 5.17. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais gan yr asiant yn cadarnhau bod 21 i 25 llecyn parcio ffurfiol yn bresennol oddi fewn y safle a bod llecyn o dir ychwanegol wedi ei leoli'n gyfochrog i dalcen gorllewinol yr adeilad oedd wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol fel maes parcio gorlif. Mae'r llain tir hwn ac wyneb graean iddo a byddai'n bosib darparu llecyn parcio i o leiaf 12 cerbyd ychwanegol arno pe bo'r angen. Pe bai'r egwyddor y cais yn dderbyniol i'r ACLL, byddai'n bosib i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun parcio cynhwysfawr ar gyfer y llety gwyliau/hostel arfaethedig er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o lecynnau parcio oddi fewn i'r safle a byddai modd wedyn ei reoli drwy amod cynllunio.
- 5.18. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth parcio a gynigir fel rhan o'r cais cyfredol hwn yn dderbyniol ar sail gofynion parcio Llywodraeth Cymru ar gyfer llety gwyliau/hostel ac i'r perwyl hyn, felly, ystyrir ei fod yn groes i ofynion Polisi TRA 2 a TRA 4 o'r CDLL ynghyd a'r cyngor a gynhwysir o fewn y ddogfen NCT 18: Trafnidiaeth.

Materion cynaliadwyedd

- 5.19. Mae Polisi PS 5 (Datblygiadau Cynaliadwy) yn cefnogi datblygiadau sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ble'n briodol, dylai datblygiadau:

“Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4”.

Ategir hyn gan bwynt bwled 4 Polisi PS 14 (Yr Economi Ymwelwyr), sy'n datgan:

“Cefnogi darpariaethau a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy aildefnyddio adeiladau presennol, os yw hynny'n briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy;”

- 5.20. Ystyrir bod polisiâu'r CDLL yn gyson gyda pholisiâu cynllunio cenedlaethol o safbwynt sut mae'n ymdrin gydag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Mae paragraff 3.39 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn datgan:

“Mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau y gellir eu cyrraedd yn gymharol dda drwy ddulliau di-gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. Dylai datblygiad yn yr ardaloedd hyn barhau i fabwysiadu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a chynnig cysylltiadau teithio llesol da i ganol aneddiadau i leihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer teithiau lleol.”

Cefnogir hyn gan baragraff 3.11 Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 18: Trafnidiaeth sy'n datgan:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 06/02/2023
ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

“Dylai datblygiadau mewn lleoliadau gwledig ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwysu'r angen i hyrwyddo'r economi wledig wrth gynnal a gwella ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig. Dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau mewn lleoedd sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio.”

Yn ychwanegol mae paragraff 3.15 NCT 18 yn datgan y dylai cynigion twristiaeth, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ddangos mynediad trwy ddewis o ddulliau i osgoi'r gofyniad i deithio mewn car ac, mewn ardaloedd gwledig, mae angen cydbwysu diffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn erbyn y cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i'r economi wledig yn yr ardal benodol.

5.21 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno manylion sydd yn datgan y wybodaeth ganlynol: -

- Mae safleoedd bws swyddogol wedi eu lleoli yn union gyferbyn a safle'r cais i'r gogledd-orllewin ar y ffordd sirol dosbarth III.
- Lleolir y safle o fewn pellter agos i nifer o atyniadau twristiaeth boblogaidd Eryri sydd wedi cael eu cysylltu â'i gilydd gan rwydwaith ffyrdd, llwybrau troed a beics cyhoeddus da.
- Er cydnabyddir byddai defnyddwyr y llety gwyliau/hostel, yn y mwyafrif, yn defnyddio'r car preifat i gyrraedd y safle, mae gwahanol opsiynau ar gael ar gyfer defnyddio dulliau amgen o deithio unwaith byddent wedi cyrraedd y safle gan gynnwys beicio, trafndiaeth gyhoeddus ac ar droed.

5.22 Nodir hefyd ei fod wedi ei leoli nepell o anheddle sefydledig ac nid ar safle sydd yng nghanol cefn gwlad agored gyda rhwydwaith trafndiaeth sefydledig eisoes yn ei le ar gyfer gwasanaethu'r safle a'r pentref cyfagos.

5.23 I'r perwyl hwn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PS5 a PS14 o'r CDLL ynghyd a chydymffurfio a'r cyngor a gynhwysir yn y ddogfen NCT 18, NCT 23 a Pholisi Cynllunio Cymru, 2021.

Yr Iaith Gymraeg

5.24 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol.

